

CYFARFOD: **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**

DYDDIAD: **10 CHWEFROR 2022**

TEITL: **CYLLIDEB REFENIW 2021/22 –
ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2021**

PWRPAS: **Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf**

GWEITHREDIAD: **Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r
tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu
penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswilt rheoli cyllidebau'r
Cyngor a'i adrannau**

AELOD CABINET: **CYNGHORYDD IOAN THOMAS**

SWYDDOG CYSWLLT: **FFION MADOG EVANS, UWCH REOLWR CYLLID**

1. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
2. Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2021/22 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2021) i'r Cabinet ar 18 Ionawr 2022.
3. Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w graffu, ynghyd â'r daflen penderfyniad perthnasol sydd ar y dudalen nesaf.
4. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswilt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Taflen Penderfyniad Cabinet 18/01/2022

Adroddiad Cabinet 18/01/2022: Cyllideb Refeniw 2021/22 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2021

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:	18 Ionawr 2022
Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	2 Chwefror 2022

PWNC

Eitem 7: CYLLIDEB REFENIW 2021/22 – ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2021

PENDERFYNIAD

- Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Tachwedd 2021 o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth.
- Nodwyd fod effaith ariannol Covid yn parhau yn 2021/22, sydd yn gyfuniad o gostau ychwanegol, colledion incwm a llithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.
- Nodwyd fod cyfundrefn cymorth Covid Llywodraeth Cymru drwy gronfa caledi yn parhau, ond nad yw'n cyfarch gorwariant oherwydd llithriad yn y rhaglen arbedion.
- Nodwyd fod gorwariant sylweddol gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol eleni.
- Cymeradwywyd yr argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol ar gyllidebau Corfforaethol, fod:
 - Tanwariant o (£20k) yn ymwneud â chostau cyfalaf yn cael ei neilltuo i gronfa ariannu'r rhaglen gyfalaf.
 - Tanwariant net o (£1,846k) ar gyllidebau Corfforaethol yn mynd i Gronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol i gynorthwyo i wynebu'r heriau ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor yn arbennig felly o ganlyniad i'r argyfwng Covid.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.